

Elin Jones AC,  
Y Llywydd,  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

11 Ionawr 2018

Annwyl Lywydd,

### Adroddiad ar Lobïo

Mae'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad wedi bod yn ystyried lobïo yng Nghymru. Mae adroddiad y Pwyllgor wedi ei gyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ac amgaeaf gopi er gwybodaeth i chi.

Mae'r adroddiad yn gwneud nifer o argymhellion i'r Comisiwn. Felly, byddwn yn ddiolchgar pe gallech chi, yn rhinwedd eich rôl fel Cadeirydd Comisiwn y Cynulliad, dynnu sylw aelodau eraill y Comisiwn at yr adroddiad, gyda'r bwriad o ystyried yr argymhellion mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at gael ymateb y Comisiwn i'w adroddiad.

Yn gywir,



Jayne Bryant  
Cadeirydd

